

Pennaeth Theatr, y Celfyddydau a Diwylliant

Cyflog: £43,217 a buddiannau

Sefydliad dielw ac elusen gofrestrdig ydy Casnewydd Fyw, sy'n darparu gwasanaethau theatr, celfyddydau, chwaraeon, hamdden a diwylliannol yn Ninas Casnewydd ar draws lleoliadau ac yn y gymuned ehangach. Mae Casnewydd Fyw yn gweithredu un o'r lleoliadau celfyddydol mwyaf blaenllaw yn ne Cymru, Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon, ac maent bellach yn ceisio penodi Pennaeth Theatr, Celfyddydau a Diwylliant i arwain y gwasanaeth drwy'r cyfnod cyffrous sydd ar y gorwel.

Mae swydd y Pennaeth Theatr, Celfyddydau a Diwylliant yn hynod bwysig yng Nghasnewydd Fyw ac mae'n gofyn am ymgeisydd gyda lefel uchel o feddwl creadigol, arweinyddiaeth ragorol a sgiliau rheoli busnes ac sydd hefyd yn gallu rheoli llwyth gwaith amrywiol mewn amgylchedd prysur. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn hyrwyddwr diwylliannol gydag angerdd at y celfyddydau yn ogystal â phrofiad amlwg o arwain ac ysbrydoli tîm amrywiol, gan sicrhau bod rhaglen theatr, celfyddydau a diwylliannol Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon a Chasnewydd Fyw yn gweithredu at y safonau uchaf posibl, yn gwneud y mwyaf o'r potensial ar draws pob rhan o'r celfyddydau ac yn ceisio ymgysylltu â phob cymuned ar draws y rhanbarth.

Mae Glan yr Afon yn chwarae rôl hanfodol wrth ddatblygu cynnig diwylliannol uchelgeisiol ac o safon uchel yng Nghasnewydd a'r cyffiniau. Mae'n cyflwyno rhaglen amrywiol draws gelfyddydol drwy gydol y flwyddyn, sy'n cynnwys digwyddiadau â ffocws mwy masnachol a gwaith arbrolf sy'n cymryd mwy o risg ac sy'n cynorthwyo datblygiad proffesiynol artistiaid sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.

Ar hyn o bryd mae Glan yr Afon yn cael cymorth datblygu busnes drwy Raglen Gwydnwch Cyngor Celfyddydau Cymru ac mae hefyd yn datblygu Is-grŵp Celfyddydau a Diwylliant newydd ac amrywiol i wella a chefnogi Bwrdd Casnewydd Fyw i lunio a chefnogi'r strategaeth 3-5 mlynedd newydd ac sy'n datblygu ar gyfer Theatr, y Celfyddydau a Diwylliant Casnewydd Fyw, a fydd yn cyfuno â'r strategaeth ddiwylliannol ar gyfer Dinas Casnewydd.

Bydd y Pennaeth Theatr, Celfyddydau a Diwylliant yn arwain gweledigaeth artistig ar gyfer Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon, a fydd yn cynnwys Rhaglenni Ymgysylltu a Chyfranogi eang yn ogystal â pharhau i ddatblygu rhaglen eang o ddigwyddiadau â nod masnachol ac a arweinir yn artistig, gan arwain yn effeithiol y cyswllt ag ystod o randdeiliaid yn fewnol ac yn allanol yn allweddol. Bydd hyn yn allweddol i lwyddiant yn y rôl hon.

Proses Ymgeisio

Gallwch lawrlwytho ffurflen gais a disgrifiad swydd o wefan Casnewydd Fyw www.casnewyddfyw.co.uk neu fel arall, maent ar gael trwy wneud cais drwy e-bost i jobs@newportlive.co.uk

Am drafodaeth anffurfiol ynglŷn â'r swydd gallwch gysylltu â Chyfarwyddwr Datblygu Busnes Casnewydd Fyw, Andrea Ovey ar 01633 656757 neu drwy andrea.ovey@newportlive.co.uk

Dychwelwch y ffurflenni cais cyflawn i jobs@newportlive.co.uk

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:
hanner dydd**

Dydd Llun 18 Hydref 2021, 12

Cynhelir y cyfweiliadau yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn:

Ddydd Llun 1 Tachwedd 2021


DISGRIFIAD SWYDD

Swydd:	Pennaeth Theatr, y Celfyddydau a Diwylliant
Diben y Swydd:	Cyfrifoldeb dros arwain ac ysbrydoli tîm amrywiol, gan sicrhau bod rhaglen theatr, celfyddydau a diwylliannol Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon a Chasnewydd Fyw yn gweithredu yn ôl y safonau uchaf posibl, gan wneud y mwyaf o'r potensial ar draws pob maes yn y celfyddydau ledled Dinas Casnewydd.
Yn atebol i'r:	Cyfarwyddwr Datblygu Busnes
Cyflog:	£43,217 ynghyd â buddion
Perthnasoedd Allweddol:	Cydweithwyr ar draws Casnewydd Fyw, Artistiaid, Perfformwyr, Cynhyrchwyr, Cyflwynwyr a Hyrwyddwyr; rhanddeiliaid gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Dinas Casnewydd a Llywodraeth Cymru a'r cymunedau ehangach ar draws y celfyddydau.
Lleoliad Arferol:	Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon
Cyfrifoldebau Rheoli dros:	Cynhyrchydd Creadigol, Rheolwr Technegol, Swyddog Gweithredol Cynyrchiadau, Swyddog Datblygu Celfyddydau yn y Gymuned, Swyddog Addysg a Chyfranogiad, Rheolwr y Swyddfa Docynnau a Rheolwr Blaen y Tŷ

Byddaf yn llwyddiannus yn fy rôl pan:

- Fydd fy holl gyfrifoldebau gweithredol allweddol yn cae eu cyflawni'n gyson i safon uchel.
- Byddaf yn cyflawni'r holl ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n benodol i'm rôl.
- Byddaf yn fodel rôl ar gyfer gwerthoedd ymddygiadol Casnewydd Fyw drwy fy mherfformiad.
- Byddaf fyn cydweithio ar draws adrannau a gwasanaethau i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid eithriadol i gwsmeriaid Casnewydd Fyw.
- Trwy fy mherfformiad a'm hangerdd, rwy'n ysbrydoli pobl i fod yn hapusach ac yn iachach

SUT CAIFF FY MHERFFORMIAD EI FESUR



DATGELU A GWAHARDD:

Gall y swydd hon olygu y byddwch mewn cysylltiad â phlant, yr henoed, pobl sâl neu anabl. Mae Casnewydd Fyw yn gofyn felly, yn ôl Gorchymyn (Eithriadau) Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, 1975, Deddf Plant 1989 a/neu Ddeddf yr Heddlu 1997, i chi ddatgelu unrhyw euogfarn droseddol, gorchymyn rhwymo neu rybudd, gan gynnwys y rhai a ystyrir fel eu bod wedi eu disbyddu. Rhaid i chi gwblhau'r adran berthnasol ar y ffurflen gais, dychwelir ceisiadau os yw'r adran hon yn anghyflawn. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn destun Gwiriad Datgelu a Gwahardd

PRIF GYFRIFOLDEBAU:

1. Creu, ymgorffori ac arwain strategaeth artistig Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon, sy'n adlewyrchu Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd Casnewydd Fyw, gan gyflawni'r strategaethau, eu trawsnewid yn gamau gweithredu ac ymgysylltu â phob cynulleidfa a chymuned ar draws y rhanbarth.
2. Ymgysylltu ac ysbrydoli timau, rhanddeiliaid, cynhyrchwyr, cymunedau a chwsmeriaid gan sicrhau bod Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon yn gweithredu i'r safonau uchaf posibl, gan wneud y mwyaf o'i photensial fel un o brif leoliadau Cymru.
3. Creu, arwain a chyflwyno cynllun busnes blynyddol Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon, gan osod a datblygu timau i gyflawni'r holl dargedau, a rheoli cyllideb weithredu, incwm tocynnau, cyfleoedd gwario eilaidd, rhagolygon perfformiad ac achosion busnes Glan yr Afon yn effeithiol, gan gynnwys yr achosion ar gyfer ceisiadau am brosiectau referniw a gwella cyfalaf.
4. Datblygu a rheoli strategaeth codi arian flynyddol Theatr Glan yr Afon a'i rhaglen ddigwyddiadau drwy wneud ceisiadau am arian gan ymddiriedolaethau, sefydliadau, cyrff elusennol a chyrrff sy'n rhoi grantiau sy'n cefnogi diwylliant a chelfyddydau a chanlyniadau rhaglenni
5. Bod yn arweinydd strategol, a chefnogi'r Tîm Gweithredol ar holl ofynion cynllunio a monitro busnes Cyngor Celfyddydau Cymru yn ogystal â gweinyddu a hyrwyddo'r Is-grŵp Celfyddydau a Diwylliant.
6. Creu ac arwain gwaith o ddatblygu a chyflwyno rhaglen gelfyddydol, addysg, gweithdy a chymunedol flynyddol sy'n cynnig cyfleoedd ymgysylltu i ystod eang o sefydliadau cymunedol ac ieuencid, ysgolion, asiantaethau iechyd a lles, a phartneriaid/rhanddeiliaid allweddol eraill.
7. Bod yn arweinydd strategol ar gyfer holl ofynion cynllunio a monitro busnes Cyngor Celfyddydau Cymru, gan sicrhau bod yr holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol cytunedig yn cael eu cyflawni a bod datblygiadau yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r holl amcanion strategol a sefydliadol.
8. Bod yn berchen ar ac arwain ar bob agwedd ar weithrediadau, yr agweddau technegol, tocynnau, rhaglennu a chynhyrchu wrth gydweithio â thimau ar draws Bwyd a Diod, Cyllid, Adnoddau Dynol, Marchnata a Chyfathrebu, Datblygu Busnes, Chwaraeon a Lles Cymunedol, ac adrannau TG i sicrhau bod yr holl amcanion strategol a gweithredol yn cael eu cyflawni.
9. Datblygu rhaglen artistig uchelgeisiol sy'n cynnig portffolio perfformiad eang, gan sicrhau twf mewn presenoldeb cynulleidfaoedd a chyfranogiad yn y celfyddydau cymunedol, gan gynnwys rhaglen artistig eang Glan yr Afon, yn ogystal â'r Pantomeim blynyddol a digwyddiadau eraill yn unol â thargedau ac amcanion strategol yn Theatr Gan yr Afon a thrwy ein cymunedau eang ac amrywiol.

10. Nodi a datblygu cyfleoedd ar gyfer comisiynu gwaith newydd gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i wella enw da Glan yr Afon a Casnewydd Fyw fel lleoliad a chatalydd ar gyfer arloesi artistig
11. Defnyddio mewnwelediadau busnes o systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ac atebion adrodd eraill i ddadansoddi data gan gynnwys perfformiad gwerthiant, ymgysylltu â chwsmeriaid a data defnyddio lleoliadau o bob maes, er mwyn sicrhau cyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol, gan gymryd camau cyflym i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer canlyniadau llwyddiannus.
12. Bod yn Arweinydd a Rheolwr effeithiol ar bobl yn unol â holl bolisïau a gweithdrefnau Casnewydd Fyw gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: recriwtio a hyfforddi, gwerthusiadau cyflogaeth, rheoli perfformiad a disgyblaeth, rheoli ariannol ar gyfer y gyflogres a phrosesau eraill gan gynnwys caffael contractau, mynd i'r afael â chwynion, a datrys materion personél.
13. Cysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid mewnol ac allanol yn effeithiol a rheoli perthynas waith gadarnhaol Glan yr Afon â'r gymuned gelfyddydol ehangach gan gynnwys cynhyrchwyr theatr, asiantau, asiantaethau hysbysebu, cynrychiolwyr y wasg a gweithwyr proffesiynol eraill o'r gymuned theatr gan gynnwys noddwyr, hyrwyddwyr a chontractwyr posibl.
14. Nodi cyfleoedd busnes newydd, darpariaethau gwasanaeth a phrosiectau gwerth cymdeithasol, gan gynnwys Dysgu Creadigol, mewn modd strategol i gyfrannu at gynlluniau Casnewydd Fyw ar gyfer twf refeniw a pherthnasedd ac effaith yn y gymuned.
15. Cydweithio â thîm marchnata Casnewydd Fyw i ddatblygu perthynas gadarnhaol â'r wasg a'r cyfryngau a gweithredu fel llefarydd Casnewydd Fyw ar raglennu artistig a diwylliannol.
16. Ymrwymo wrth gynnal gwerthoedd a safonau craidd Casnewydd Fyw, sy'n cynnwys darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf a darparu'n broffesiynol bob amser.
17. Arwain a goruchwylio gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio effeithiol yn y theatr yn unol â phrotocolau Casnewydd Fyw, rheoli prosiectau gwelliannau cyfalaf a cheisio cyfleoedd bob amser i sicrhau mwy o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn Theatr Glan yr Afon.
18. Cynnal protocolau diogelwch a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau gweithredol, polisïau a deddfwriaeth cwmnïau.
19. Bod yn llysgennad dros Gasnewydd Fyw, gan gynrychioli'r sefydliad mewn trafodion gyda'r holl randdeiliaid mewnol ac allanol; rheoli disgwyliadau, ymholiadau a gwrthwynebiadau cyfunol cydweithwyr Casnewydd Fyw ac arwain cyfarfodydd busnes perthnasol yn ôl yr angen.

Mae disgwyl i'r person sy'n gwneud y swydd hon weithio o fewn polisïau, ethos a nodau Casnewydd Fyw a chyflawni dyletswyddau eraill y gallai Prif Weithredwr Casnewydd Fyw eu rhoi iddo. Mae'r cyfrifoldebau uchod yn destun y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau cyffredinol sydd yn y Datganiad Amodau Cyflogaeth. Gall dyletswyddau'r swydd hon amrywio o bryd i'w gilydd heb newid naws gyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb sydd ynghlwm â hi. Bydd deiliad y swydd yn gweithio i gyflawni amcanion perfformiad y cytunir arnynt; caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd ac yn ffurfiol trwy brosesau rheoli perfformiad Casnewydd Fyw.

PENNAETH THEATR, CELFYDDYDAU A DIWYLLIANT – MANYLEB PERSON

Ardal	Hanfodol	Dymunol
<p>Addysg, Hyfforddiant a Chymwysterau</p>	<p>Addysg at lefel gradd (A).</p> <p>Neu</p> <p>o leiaf tair blynedd o brofiad Rheoli ac Arwain a gyflawnwyd mewn amgylchedd Theatr / Diwylliannol (A, I)</p> <p>Dangos hyfforddiant datblygiad proffesiynol busnes, rheolaeth neu ddiwylliannol ac yn y diwydiant celfyddydol. (A, I)</p>	<p>Addysg at lefel gradd mewn pwnc cysylltiedig â chelf neu fusnes (A, I)</p>
<p>Gwybodaeth, Sgiliau a Medrau</p>	<p>Gwybodaeth dra eang ar draws y diwydiant celfyddydau a diwylliannol. (A, I)</p> <p>Sgiliau arwain a rheoli i reoli ac ysbrydoli timau i ddarparu perfformiad a gwasanaethau cwsmeriaid rhagorol. (A, I)</p> <p>Profiad o ddyfeisio a chyflwyno mentrau newydd yn llwyddiannus i gynyddu amrywiaeth a chydaddoldeb yn y celfyddydau (gweithlu, cynulleidfaoedd a rhaglenni cyfranogiad)</p> <p>Gallu denu busnes newydd, cadw cleientiaid a chwsmeriaid presennol a chynyddu incwm drwy weithgareddau masnachol neu godi arian. (A, I)</p> <p>Gallu sefydlu a chyflawni strategaethau arloesol ac sy'n apelio, i gyflawni perfformiadau sy'n ymgysylltu'n artistig ac sy'n llwyddiannus yn fasnachol. (A, I)</p> <p>Gallu dangos craffter a sgiliau rheoli masnachol i wneud y defnydd gorau o gyfleusterau artistig a rhaglenni cymunedol (A, I)</p>	<p>Gallu cyflwyno gwerth cymdeithasol pwysig y Celfyddydau i'r gymuned i bartneriaid posibl. (A, I)</p> <p>Gwybodaeth dra eang ar draws y diwydiannau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru. (A, I)</p> <p>Cynnal ystod eang o gysylltiadau a pherthnasau rhagorol ymhlith hyrwyddwyr artistig a masnachol allweddol i ddenu'r artistiaid gorau i berfformio, (A, I)</p> <p>Gallu cyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg. (I)</p>

<p>Profiad</p>	<p>Hanes y gellir ei ddangos o ddyfeisio a gweithredu strategaeth draws gelfyddydol yn llwyddiannus gan gynnwys gweithgareddau codi arian a chynhyrchu referniw sylweddol. (A, I)</p> <p>O leiaf 3 blynedd o brofiad mewn llunio rhaglenni theatrau a chyflwyno digwyddiadau mawr gan gynnwys comisiynu a hyrwyddo gwaith newydd a dulliau arloesol o gynhyrchu gwaith. (A, I)</p> <p>Profiad o fod yn berchen ar a chyflwyno cynlluniau busnes sy'n darparu rhaglennu masnachol a diwylliannol effeithiol i gyflawni targedau ariannol, datblygu cynulleidfaoedd, ymgysylltu a chyfranogi. (A, I)</p> <p>Profiad o sefydlu a rheoli lleoliadau mawr a chyllidebau cysylltiedig yn llwyddiannus, gallu adolygu perfformiad busnes yn llwyddiannus gan ddefnyddio dangosyddion lluosog a ffynonellau data a gwybodaeth fusnes i gyrraedd targedau. (A, I)</p> <p>Creu strategaethau artistig a chynhyrchu neu gyd-gynhyrchu digwyddiadau a sioeau mawr. (A, I)</p> <p>Dealltwriaeth amlwg o anghenion rheoli gweithredol a thechnegol theatr neu leoliad perfformiadau byw. (A, I)</p> <p>Profiad y gellir ei ddangos o reoli ac arwain timau sy'n gyfrifol am elfennau digidol sefydliad celfyddydol a diwylliannol, gan gynnwys systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, ac atebion tocynnau. (A, I)</p>	<p>Dealltwriaeth o systemau a phrosesau ariannu (A, I)</p> <p>Cynhyrchu ffrydiau referniw o geisiadau nawdd a grantiau. (A, I)</p> <p>Profiad gwerthu a marchnata mewn amgylchedd diwylliannol a masnachol. (A, I)</p> <p>Datblygu gwasanaethau a chyfleoedd cyfranogi mewn amgylchedd cymunedol. (A, I)</p> <p>Profiad o weithio gyda sefydliadau cenedlaethol er budd ymgysylltu a chyfranogiad yn y celfyddydau o fewn y sector celfyddydau a diwylliannol. (A, I)</p> <p>Profiad o gynhyrchu adroddiadau rheoli a strategol sy'n gysylltiedig â dangosyddion perfformiad allweddol. (A, I)</p> <p>Profiadol o ran datblygu atebion cyfryngau digidol, gan gynnwys llwyfannau ffrydio wrth greu cynnwys digidol i gefnogi theatr fyw a theatr wedi'i recordio ymlaen llaw i ddatblygu'r cynnig celfyddydol yn ddigidol. (A, I)</p>
<p>Nodweddion Personol</p>	<p>Arweinydd pobl effeithiol gyda sgiliau cyfathrebu a rhyng-bersonél rhagorol. (A, I)</p> <p>Gallu dangos tystiolaeth o gyflawni targedau a chanlyniadau. (A, I)</p> <p>Sgiliau negodi a chyfathrebu rhagorol. (A, I)</p>	

	<p>Natur frwdfrydig ac awydd i gyflawni rhagoriaeth. (A, I)</p> <p>Angerddol am werth y celfyddydau a diwylliant mewn amgylchedd cymunedol. (A, I)</p> <p>Gallu cydbwysu llwyth gwaith eang ac amrywiol a blaenoriaethu'n effeithiol. (A, I)</p> <p>Gallu gweithio'n rheolaidd ar benwythnosau, nosweithiau a gwyliau'r banc. (A, I)</p>	
Arall	<p>Gallu defnyddio nifer o dechnegau cyfathrebu i sicrhau dealltwriaeth effeithiol. (A, I)</p> <p>Gallu teithio'n eang yn y DU. (A)</p>	<p>Dealltwriaeth o weithredu mewn amgylchedd elusennol a dielw. (A)</p> <p>Trwydded yrru ddilys lawn (A)</p>

A: Ffurflen gais (gan gynnwys llunio rhestr fer)

C: Tystysgrif

E: Ymarfer corff

I: Cyfweliad

P: Cyflwyniad

T: Prawf

AC: Canolfan Asesu

Rhaid i ymgeiswyr ddangos yn eu cais eu bod yn ateb yr **holl ofynion hanfodol** ar y rhestr fer er mwyn cael eu hystyried am gyfweliad gyda Chasnewydd Fyw.

DATGELU A GWAHARDD:

Gall y swydd hon olygu y byddwch mewn cysylltiad â phlant, yr henoed, pobl sâl neu anabl. Mae Casnewydd Fyw yn gofyn felly, yn ôl Gorchymyn (Eithriadau) Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, 1975, Deddf Plant 1989 a/neu Ddeddf yr Heddlu 1997, i chi ddatgelu unrhyw euogfarn droseddol, gorchymyn rhwymo neu rybudd, gan gynnwys y rhai a ystyrid fel eu bod wedi eu disbyddu. Rhaid i chi gwblhau'r adran berthnasol ar y ffurflen gais, dychwelir ceisiadau os yw'r adran hon yn anghyflawn. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn destun Gwiriad Datgelu a Gwahardd.